



Eich cyf/Your ref P-05-862
Ein cyf/Our ref KW/05031/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

7 Ionawr 2019

Annwyl David

Deiseb P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr yn gofyn am fy safbwynt i ar y ddeiseb uchod.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu na ddylid goddef unrhyw fwlio yn y system addysg yng Nghymru. Rydym yn credu bod diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn hollbwysig, ac rydym yn disgwyl i ysgolion fabwysiadu dull gweithredu "dim goddefgarwch" wrth fynd i'r afael â phob math o fwlio. Ein gweledigaeth yw mynd i'r afael â bwlio mewn ffordd holistaidd. Bydd y ffordd hon yn ymdrin â'r hyn sydd wrth wraidd ymddygiad annerbyniol, ac yn creu amgylchedd diogel sy'n ennyn diddordeb y dysgwyr er mwyn iddynt fod yn barod i ddysgu.

Rhaid i bob ysgol, yn ôl y gyfraith, gael polisi ymddygiad. Dylai strategaethau gwrthfwlio effeithiol o'r fath fod yn rhan ganolog o'r polisi ymddygiad hwnnw a dylent gael eu datblygu a'u gweithredu gan bawb yn yr ysgol, gan gynnwys y dysgwyr.

Ceir ystod o strategaethau a rhaglenni ar gyfer mynd i'r afael â bwlio. Mater i'r ysgol, fel rhan o'i dull gweithredu, yw penderfynu ar yr hyn sy'n gweithio orau i'w dysgwyr. Bydd y penderfyniadau hyn wedyn yn llunio sut y mae ysgol yn cofnodi ac yn monitro bwlio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Rydym yn diweddarau ein canllawiau gwrthfwlio, sef *Parchu eraill*, a gyhoeddwyd yn 2011. Cyhoeddum ganllawiau diwygiedig ar gyfer ymgynghori arnynt ym mis Tachwedd. Lluniwyd y drafft a gyhoeddwyd gennym gyda chymorth arbenigwyr, ac mae'n rhoi ystyriaeth i'r gwaith ymgysylltu helaeth sydd eisoes wedi ei wneud gyda'r prif randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector, a phlant a phobl ifanc. Rydym eisiau sicrhau bod y canllawiau diwygiedig yn rhoi cefnogaeth ymarferol i ysgolion ac yn egluro'r gyfraith, y polisi a strategaethau effeithiol. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r pwysigrwydd o gael dull gweithredu rhagweithiol ar gyfer yr ysgol gyfan er mwyn mynd i'r afael â bwlio a'i atal, sy'n cynnwys cynnal trafodaethau gyda rhieni. Bydd adnodd ar-lein yn ategu'r canllawiau diwygiedig, ac mae fersiwn gynharach ohono wedi ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad.

Hoffwn sicrhau ein bod yn cael yr ystod ehangaf bosibl o safbwyntiau yn yr ymgynghoriad. Er mwyn hwyluso hyn, bydd fy swyddogion yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu amlasiantaethol yn fuan yn y Flwyddyn Newydd.

Rydym yn annog eich deisebwyr i ddweud eu dweud ar y canllawiau drafft drwy ymateb i'r [ymgynghoriad](#).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education